**PWYLLGOR CRAFFU LLE**

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod Hybrid Eithriadol, 1 Ebrill, 2026.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby (Cadeirydd); Y Cynghorydd C. Iannucci-Williams (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.M. Ball, P. Drake, A.M. Ernest, M.J. Hooper, J.M. Norman, I.A.N. Perry, C. Stallard a S.T. Wiliam.

Hefyd yn bresennol: G. Doyle (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel); a'r Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladau).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr C.E.A.Champion V.P. Driscoll ac E. Penn; ac O. Carroll (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro).

EITEM AGENDA 2. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd A. Ernest fuddiant personol yn Eitem 4 ar yr Agenda – Adroddiad Diweddaru ar y Strategaeth Goed. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Ernest yn aelod o Gymdeithas Penarth Kymin fel aelod anweithredol. Arhosodd y Cynghorydd Ernest yn y cyfarfod yn ystod yr eitem.

EITEM AGENDA 3. CYFLWYNIAD: CYTUNDEB PARTNERIAETH PROSIECT ANSAWDD DŴR YMDROCHI BRO MORGANNWG A CHYFOETH NATURIOL CYMRU – DIWEDDARIAD –

ARGYMHELLWYD – Y dylid gofyn i Gyfoeth Naturiol Cymru ddarparu gwybodaeth ynghylch a yw'r dechnoleg yn bodoli a fyddai'n caniatáu i'r cyhoedd gael digon o rybudd o ansawdd y dŵr ar draethau cyn iddynt fynd i ffwrdd a chynllunio eu diwrnod, ac i egluro, os nad yw'r dechnoleg honno'n bodoli ar hyn o bryd, a yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu buddsoddi mewn technoleg o'r fath.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD DIWEDDARU AR Y STRATEGAETH COED (PW) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a chefnogi'r blaenoriaethau arfaethedig ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf.

(2) Y dylid trosglwyddo diolch y Pwyllgorau i'r holl staff am eu gwaith caled wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth Coed y Cyngor.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. ADOLYGIAD GORCHWYL A GORFFEN – AR DDARPARU HYGYRCHEDD GWELL I DRAETHAU YM MRO MORGANNWG –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y BOD canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad a'r adolygiad ar ddarparu mynediad gwell i draethau ym Mro Morganwg gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (paragraff 2.5 o'r adroddiad) yn cael eu cymeradwyo, yn amodol ar gynnwys dau awgrym ychwanegol –

- Y dylid lleoli hysbysiadau sy'n ymwneud â gwybodaeth am iechyd meddwl ym mhob traeth ym Mro Morganwg.
- Y dylid ystyried defnyddio sgwteri symudedd pob tir.

(2) BOD y Cynllun Gweithredu sydd wedi'i atodi i'r adroddiad (Atodiad A i'r adroddiad) yn cael ei gymeradwyo.

(3) BOD y Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan y Pwyllgor a bod diweddariadau pellach yn cael eu darparu i'r Pwyllgor maes o law.

(4) BOD yr adroddiad yn cael ei gyfeirio at y Cabinet i'w ystyried a'i gymeradwyo.

(5) BOD y Pwyllgor yn sefydlu'r adolygiad Gorchwyl a Gorffen nesaf, fel yr argymhellwyd yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf, 2025, fel rhan o'r adroddiad i weithgareddau Gorchwyl a Gorffen arfaethedig (cyfeiriad Cofnod Rhif 241). Hyn i ystyried y materion cysylltiedig o sbwriel ar draethau lleol a'r materion ehangach o amgylch cyrchfannau gwyliau lleol.

(6) BOD aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen nesaf yn cynnwys; Y Cynghorwyr: G.M. Ball, C.E.A. Champion, P. Drake, A.M. Ernest, C. Iannucci-Williams, J.M. Norman, S. Lloyd-Selby, C. Stallard a S.T. Wiliam.

(7) Y dylid cysylltu ag Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgor Craffu Lle ynglŷn ag ymuno â'r Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen nesaf i drafod materion cysylltiedig sbwriel ar draethau lleol a'r materion ehangach o amgylch cyrchfannau gwyliau lleol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1-4) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(5) Cadarnhau pwnc adolygu Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen nesaf y Pwyllgor.

(6) Cadarnhau aelodaeth Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen nesaf y Pwyllgor.

(7) Gofyn am bresenoldeb Aelod Cyfetholedig ar y Grŵp Adolygu Gorchwyl a Gorffen.